

# STRATEGAETH GWASTRAFF TREFOL AR GYFER GWYNEDD DOGFEN GRYNO

## CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi strategaeth ddrafft Cyngor Gwynedd ar gyfer delio â gwastraff trefol yn y blynyddoedd i ddod. (Mae manylion llawnach i'w gweld yn y brif ddogfen strategaeth ddrafft a'i hatodiadau.) Diffinnir gwastraff trefol fel rheol fel yr holl wastraff sydd dan reolaeth awdurdod lleol ac mae'n cynnwys yr holl wastraff a gesglir o dai; sbwriel a gesglir mewn biniau, trwy ysgubo'r strydoedd a thrwy lanhau'r traethau; gwastraff a gludir i fannau ailgylchu'r cyngor; gwastraff o barciau a gerddi bwrdeistrefol; gwastraff a gludir i ganolfannau ailgylchu gwastraff domestig; gwastraff tipio slei a cherbydau a adewir ar dir cyhoeddus, a gwastraff masnachol a gesglir lle mae cytundebau awdurdod lleol yn bod.

Mae rheoli gwastraff trefol yn un o'r materion amgylcheddol pwysicaf a mwyaf heriol sy'n wynebu Cymru. Nodir yn Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru ('Yn Gall gyda Gwastraff'), a gyhoeddwyd ym Mehefin 2002, fod angen newid, ynghyd â chynlluniau ar gyfer system rheoli gwastraff trefol cynaliadwy yn y dyfodol. Mae'n hanfodol bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn paratoi ei gynlluniau manwl ei hun ar gyfer rheoli gwastraff trefol yn unol â strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gymeradwywyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Dyhead Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel ei gilydd, yw y dylid rheoli gwastraff trefol yng Nghymru mewn modd a fydd nid yn unig yn gwarchod yr amgylchedd ac iechyd dynol ond hefyd yn darparu buddion economaidd a chymdeithasol. I'r perwyl hwn mae Cyngor Gwynedd wedi paratoi Strategaeth Rheoli Gwastraff Trefol a gobeithir y bydd yn gwneud cyfraniad sylweddol at gyflawni'r dyhead hwn a sicrhau y rheolir Gwastraff Trefol mewn modd cynaliadwy.

Mae angen lleihau ein dibyniaeth ar dirlenwi fel y prif opsiwn ar gyfer delio â defnyddiau nad oes ar gymdeithas mo'u heisiau ac mae hyn yn allweddol o safbwynt rheoli gwastraff trefol. Mae angen sicrhau mai ailgylchu, compostio a dulliau eraill o ddefnyddio gwastraff mewn modd buddiol yw'r opsiynau dewisol ar gyfer rheoli ein gwastraff.

Un o'r prif ofynion yn y dyfodol fydd lleihau'r symiau o wastraff trefol pydradwy sy'n llenwi tir. Cyfarwydddeb Tirlenwi yr Undeb Ewropeaidd sy'n darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli gwastraff pydradwy, gan osod amserlen gaeth a thargedau gorfodol ar gyfer rhoi llai o wastraff trefol pydradwy mewn safleoedd tirlenwi. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru bellach wedi trosi'r targedau hyn yn uchafsymiau tunellau o wastraff trefol pydradwy y caiff pob Awdurdod yng Nghymru eu roi i lenwi tir.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi Cyfarwyddyd ar ba faterion y dylid eu cynnwys o fewn y Strategaeth Rheoli Gwastraff Trefol. Mae'r rhain yn cynnwys: -

- Adnabod yr Opsiwn Amgylcheddol Ymarferol Gorau ar gyfer rheolaeth hirdymor gwastraff trefol.
- Strategaeth ar gyfer lleihau'r cynnydd yn y gwastraff trefol a gynhyrchir (lleihau gwastraff).
- Cynlluniau ar gyfer delio â mathau arbennig o wastraff, gan gynnwys gwastraff peryglus a gwastraff anodd.
- Cynnwys cynlluniau ailgylchu statudol.

**Strategaeth Rheoli Gwastraff Trefol Ddrafft ar gyfer Gwynedd**

- Cynlluniau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â'r gymuned a'r sector gwirfoddol a busnesau preifat.
- Ymgynghori â phob rhanddeiliad.
- Adnabod costau tebygol rheoli gwastraff yn unol â'r Strategaeth

Datblygwyd Strategaeth Gwastraff Trefol Gwynedd yn unol â gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n cynnwys pob agwedd a nodwyd fel agwedd bwysig o ran rhoi rheolaeth gwastraff mwy cynaliadwy ar waith yng Ngwynedd.

## TARGEDAU

Mae targedau statudol ac anstatudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar osgoi tirlenwi, ailgylchu ac adennill, ynghyd â'r Gyfarwyddeb Tirlenwi, yn darparu fframwaith ar gyfer adnabod strategaeth rheoli gwastraff i Wynedd yn y dyfodol. Mae'r targedau i'w cyflawni fel a ganlyn:

Mae 'Yn Gall gyda Gwastraff' – Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru (2002) (Llywodraeth Cynulliad Cymru) yn nodi'r isafswm targedau o ran ailgylchu a chompostio y dylai pob awdurdod lleol eu cyflawni:

- Erbyn 2003/04 dylid ailgylchu/compostio o leiaf 15% o'r gwastraff, gan gompostio o leiaf 5% compostio (dim ond compost sy'n deillio o ddefnyddiau a wahanir wrth y ffynhonnell sy'n cyfrif) ac ailgylchu 5%
- Erbyn 2006/07 dylid ailgylchu/compostio o leiaf 25% o'r gwastraff, gan gompostio o leiaf 10% compostio (dim ond compost sy'n deillio o ddefnyddiau a wahanir wrth y ffynhonnell sy'n cyfrif) ac ailgylchu 10%
- Erbyn 2009/10 dylid ailgylchu/compostio o leiaf 40% o'r gwastraff, gan gompostio o leiaf 15% compostio (dim ond compost sy'n deillio o ddefnyddiau a wahanir wrth y ffynhonnell sy'n cyfrif) ac ailgylchu 15%

Nodir yn y tabl isod y gofynion o ran ailgylchu a chompostio ar gyfer y blynyddoedd a dargedir. Defnyddiwyd y gofynion hyn yn y broses o ddatblygu'r opsiynau.

Blwyddyn	Ailgylchu (tunelli metrig)	Compostio (tunelli metrig)
2006/7	13,256	8,837
2009/10	24,218	14,531

Mae Cyfarwyddeb Tirlenwi'r Undeb Ewropeaidd yn gosod targedau mandadol, ac mae'r canlynol yn ofynnol ar gyfer y Deyrnas Gyfunol:

- Erbyn 2010 dylid lleihau gwastraff trefol pydradwy sy'n llenwi tir i 75% (yn ôl pwysau) o'r hyn a gynhyrchwyd ym 1995
- Erbyn 2013 dylid lleihau gwastraff trefol pydradwy sy'n llenwi tir i 50% (yn ôl pwysau) o'r hyn a gynhyrchwyd ym 1995
- Erbyn 2020 dylid lleihau gwastraff trefol pydradwy sy'n llenwi tir i 35% (yn ôl pwysau) o'r hyn a gynhyrchwyd ym 1995.

Yn seiliedig ar y cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar roi ar waith y Mesur Gwastraff a Masnachu Allyriadau, bydd ar Wynedd angen lleihau cyfanswm y gwastraff trefol pydradwy sy'n llenwi tir i'r symiau canlynol:

2010: 28,945 tunnell fetrig  
2013: 19,244 tunnell fetrig

### Strategaeth Rheoli Gwastraff Trefol Ddrafft ar gyfer Gwynedd

2020: 13,471 tonnall fetrig

## **PERFFORMIAD PRESENNOL**

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi ar waith amrywiaeth o gynlluniau ailgylchu a chompostio sydd wedi gwella'n sylweddol berfformiad y cyngor o ran ailgylchu a chompostio.

Dangosir isod lefelau ailgylchu a chompostio Gwynedd ar gyfer 2003/4: -

Ailgylchu:	11.27 %
Compostio	5.87 %

Cyflawnwyd y lefelau presennol trwy ddarparu 60 o fanciau ailgylchu, a gwasanaeth ailgylchu wrth ochr y lôn i 74% o'r eiddo preswyl, didoli eitemau gwastraff mawr, didoli gwastraff mewn 3 Canolfan Ailgylchu (CA) a sgipiau cymunedol, gwasanaeth ailgylchu gwydr ar gyfer busnesau a chompostio gwastraff parciau. Ni ellir cymryd i ystyriaeth effaith hyrwyddo compostio cartref wrth gyfrifo ffigurau compostio.

Mewn gwirionedd, cyflawnodd yr awdurdod fwy na'i dargedau ailgylchu/compostio ar gyfer 2003/04.

## **DULLIAU O DDELIO Â GWASTRAFF**

### **Lleihau Gwastraff (gan gynnwys Compostio Cartref)**

Lleihau gwastraff domestig lle y'i cynhyrchir. Mae compostio cartref yn ffurf gyffredin ar leihau gwastraff lle y diraddir mater organig (o'r gegin a'r ardd) yn aerobig gan ffurfio gwrtait h i wella pridd yr ardd. Mae'r dulliau eraill o leihau gwastraff yn cynnwys:

- Peidio â phrynu nwyddau wedi'i 'gorbacio' (dylid eu prynu yn rhydd yn lle hynny).
- Ailddefnyddio bagiau plastig o'r archfarchnadoedd.
- Prynu llefrith mewn cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio
- Trwsio offer sydd wedi torri a'u hailddefnyddio, yn hytrach na'u taflu.

Lleihau gwastraff yw'r ffordd bwysicaf o drin gwastraff gan ei bod yn lleihau swm y gwastraff y mae'n rhaid ei drin. Mae hyn yn lleihau cyfanswm cost rheoli gwastraff.

### **Ailgylchu**

Gellir gwahanu defnyddiau ailgylchadwy o'r llif gwastraff mewn dwy brif ffordd – trwy i'r unigolyn fynd â'r defnydd i safle ailgylchu a'i roi mewn cynhwysyddion pwrpasol, neu trwy i'r awdurdod lleol drefnu i gasglu'r defnydd o'r cartref. Gall y ddau ddull olygu bod y defnydd yn cael ei anfon yn syth at ail-brosesydd neu trwy Gyfleuster Adfer Defnyddiau ar gyfer ei ddidoli ymhellach cyn ei anfon at yr ail-brosesydd.

Gellir ailgylchu amrywiaeth eang o ddefnyddiau, gan gynnwys; papurau newydd a chylchgronau, defnydd pecynnu cardbord, caniau, cynwysyddion gwydr, cynwysyddion plastig, tecstilïau ac esgidïau, llyfrau a gwastraff gwyrd o'r ardd.

### **Compostio Canolog**

**Strategaeth Rheoli Gwastraff Trefol Ddrafft ar gyfer Gwynedd**

Y dulliau mwyaf cyffredin o gompostio yw rhencio, gorfod-ocsigeniad a chompostio mewn llestr. Dros y blynyddoedd diwethaf, cafwyd mwy o ddiddordeb yn y broses a hefyd yn y dechnoleg sy'n gysylltiedig â phrosesu defnyddiau pydradwy. O'i reoli yn iawn, mae compostio yn cynhyrchu digon o wres i ladd hadau a phathogenau, yn lleihau'r cynnwys lleithder yn sylweddol ac yn lleihau'r cyfaint a'r pwysau o dros 30%.

Mae rhencio defnyddiau gwyrdd a rhai organig a'u gorfod-ocsigenu yn brosesau sydd wedi hen ennill eu plwy. Cynhyrchir cynnyrch terfynol sy'n addas i'w cyflenwi i farchnadoedd masnachol a domestig. Mae compostio gwastraff trefol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd er y bydd angen mynd i'r afael â phroblemau halogi.

### **Llosgi gan Adennill Ynni**

Golyga hyn losgi gwastraff dan reolaeth ar dymereddau uchel. Mae hylosgi yn lleihau'r gwastraff i 10% rhan o'i gyfaint gwreiddiol a 25% o'i bwysau gwreiddiol. Byddai Cyfleusterau Troi Gwastraff yn Ynni yn lleihau'r defnydd o danwydd ffosil. Unwaith bod y gwastraff wedi'i losgi a'r ynni wedi'i gasglu i'w ddefnyddio'n fuddiol, gellir ailgylchu llawer o'r gweddillion hefyd. Gellir aildefnyddio metelau a gellir defnyddio'r lludw i gynhyrchu defnyddiau adeiladu a defnyddiau ar gyfer y diwydiannau cemegol.

### **Nweiddiad / Pyrolysis gan Adennill Ynni**

Mae pyrolysis a nweiddiad yn troi gwastraff yn danwyddau llawn ynni trwy wresogi'r gwastraff dan amodau rheoledig. Tra mae llosgi yn trawsnewid y gwastraff mewnbyn yn llwyr yn ynni a lludw, mae'r prosesau hyn yn cyfyngu'r trawsnewidiad yn fwriadol ac felly nid yw hylosgiad yn digwydd yn uniongyrchol. Yn lle hynny, trawsnewidir y gwastraff yn rhyng-gyfansoddion gwerthfawr y gellir eu prosesu ymhellach er mwyn ailgylchu defnyddiau neu adennill ynni.

Proses yw nweiddiad o dorri hydrocarbonau i lawr gan ffurfio nwy synthesis a gweddill anadweithiol (ulw) trwy reoli'n ofalus swm yr ocsigen sy'n bresennol.

Proses yw pyrolysis o ddiraddio gwastraff yn thermol yn absenoldeb aer gan gynhyrchu ulw, olew pyrolysis a nwy synthesis.

Defnyddir y nwy synthesis fel tanwydd ar gyfer peiriannau a gyneuir gan wreichion a thyrbinau nwy i gynhyrchu trydan.

### **Treuliad anaerobig**

Proses yw yreuliad anaerobig o ddiraddio gwastraff biolegol yn rheoledig yn absenoldeb aer. Mae treuliad anaerobig yn cynhyrchu bio-nwy sy'n cynnwys llawer o fethan, y gellir ei losgi i adennill ynni a deilliad treulio solet y gellir ei droi yn wrtaith i wella pridd trwy ei gompostio ymhellach yn aerobig. Mae'r dechnoleg wedi ennill ei phlwy ar gyfer gwastraff fferm a charthion ac mae llawer o safleoedd mewn rhannau eraill o Ewrop yn trin gwastraff trefol pydradwy. Gall treuliad anaerobig drin gwastraff cymysg ond mae'n well gwahanu'r gwastraff trefol naill ai trwy ei gasglu ar wahân neu drwy wahanu gwastraff mewn cyfleuster ailgylchu defnyddiau cyn ei dreulio.

### **Triniaeth Fecanyddol Fiolegol (TFF)**

Term yw Triniaeth Fecanyddol Fiolegol sy'n cyfeirio at gyfleusterau trin gwastraff sy'n cyfuno elfennau o ailgylchu, compostio (biosefydlogi) ac adennill ynni. Gan ddibynnu ar ffurf y cyfleuster, gall TFF gynhyrchu defnyddiau i'w hailgylchu, cynnyrch biolegol wedi'i sefydlogi sy'n addas ar gyfer gwella pridd ar ôl triniaeth bellach a chynnyrch tanwydd (Tanwydd yn Deillio o Wastraff). Gellir hylosgi'r tanwydd hwn ar y safle i gynhyrchu trydan a gwres neu ei ddefnyddio fel tanwydd amgen yn lle tanwyddau ffosil mewn gorsafoedd trydan, odynau sment a chyfleusterau hylosgi eraill. Mae TFF yn dechnoleg gymharol newydd yn y Deyrnas Gyfunol ond mae nifer o gyfleusterau o'r fath mewn llefydd eraill yn Ewrop.

DRAFT

## DATBLYGU OPSIYNAU GENERIG

Gellir cwrdd â thargedau ‘Yn Gall gyda Gwastraff’ a’r Gyfarwyddeb Dirlenwi (neu wneud yn well na hynny) trwy amryw ddulliau a lefelau o ailgylchu, compostio, adennill a thirlenwi, ac felly mae amrywiaeth o opsiynau wedi’u datblygu.

Yn ddelfrydol dylai’r opsiwn dewisol gynnwys<sup>1</sup>:


- Dim rhagor o dwf mewn gwastraff trefol;
- Cyfraddau uchel o ailgylchu a chompostio;
- Dibynnu llawer llai ar dirlenwi;
- Cyfleusterau ar gyfer trin a gwaredu gwastraff yn hytrach na thirlenwi;
- Yr Egwyddor Agosrwydd;
- Egwyddorion fforddiadwyedd a chyraeddadwyedd
- Yr Opsiwn Amgylcheddol Ymarferol Gorau.

Mae pob un o’r opsiynau generig yn cynnwys cymysgedd o fanciau ailgylchu, ailgylchu ochr lôn, canolfannau ailgylchu gwastraff domestig, trin gwastraff a gwaredu gwastraff. Mae’r opsiynau generig a ganlyn ar gyfer rheoli gwastraff wedi’u hystyried.

Opsiw 0: Lefelau ailgylchu a chompostio sylfaen (2002/03) gyda gweddill y gwastraff yn tirlenwi
Opsiw 1: Cwrdd â thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gompostio pob gweddillion pydradwy mewn llestri, a’r gweddillion wedyn yn tirlenwi
Opsiw 2: Cwrdd â thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda digon o’r gweddillion yn cael eu compostio i gwrdd â thargedau’r Gyfarwyddeb Tirlenwi, y gweddillion wedyn yn tirlenwi
Opsiw 3: Cwrdd â thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru, treulio pob gweddillion pydradwy yn anaerobig, y gweddillion wedyn yn tirlenwi
Opsiw 4: Cwrdd â thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru, treulio digon o weddillion yn anaerobig i gwrdd â thargedau’r Gyfarwyddeb Tirlenwi, y gweddillion wedyn yn tirlenwi
Opsiw 5: Cwrdd â thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru, pob gweddillion i Driniaeth Fecanyddol Fiolegol
Opsiw 6: Gwella ar dargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru, pob gweddillion i Driniaeth Fecanyddol Fiolegol

Nodir perfformiad pob un o’r opsiynau yn nhermau % ailgylchu, % compostio, % ailgyfeirio a % tirlenwi ar ffurf graff yn y diagram canlynol: -

<sup>1</sup> Cyfarwyddyd ar Strategaethau Rheoli Gwastraff Trefol yng Nghymru. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Awst 2002.



Dadansodwyd pob un o'r opsiynau generig hyn yn fanwl, gan ystyried ffactorau ymarferol, i ganfod y buddion cymharol ar gyfer rheoli gwastraff trefol yng Ngwynedd yn y dyfodol. Mae canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn dangos mai Opsw 1 ac Opsw 5 yw'r opsiynau dewisol, a nodir manylion pellach isod.

***Opsw 1: Cwrdd â thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gompostio pob gweddillion pydradwy mewn llestri, a'r gweddillion wedyn yn tirlenwi***

Mae'r opsiwn hwn yn cynrychioli'r isafswm perfformiad sydd ei angen trwy ailgylchu a chompostio defnyddiau a wahanir wrth y ffynhonnell i gwrdd â'r targedau ailgylchu a chompostio ar gyfer 2003/04, 2006/07 a 2009/10. I gyflawni targedau'r Gyfarwyddeb Tirlenwi, bydd gwastraff pydradwy ychwanegol yn cael ei anfon ar gyfer ei gompostio, gyda'r gweddill yn tirlenwi.

Bydd yr opsiwn hwn, sef y opsiwn dewisol ar gyfer Gwynedd yn defnyddio'r drymiau DANO, sydd dan berchnogaeth y Cyngor ar hyn o bryd, i baratoi a gwahanu'r gwastraff gweddilliol cyn compostio'r ffraciwm pydradwy.

Dylai'r compost a gynhrychir ar ôl triniaeth a phuro addas fod yn addas ar gyfer cyfrwng tyfu amaethyddol neu goedwigaethol.

***Opsiwn 5: Cwrdd â thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru, pob gweddillion i Driniaeth Fecanyddol Fiolegol***

Mae'r opsiwn hwn yn cynrychioli'r isafswm perfformiad sydd ei angen trwy ailgylchu a chompostio defnyddiau a wahanir wrth y ffynhonnell i gwrdd â'r targedau ailgylchu a chompostio ar gyfer 2003/04, 2006/07 a 2009/10. I gyflawni targedau'r Gyfarwydddeb Tirlenwi, bydd angen anfon gwastraff pydradwy ychwanegol i gyfleuster Triniaeth Fecanyddol Fiolegol rhanbarthol. Tybir y bydd y cyfleuster Triniaeth Fecanyddol Fiolegol rhanbarthol yn ymgorffori elfen o gynhyrchu Tanwydd yn Deillio o Wastraff a Throi Gwastraff yn Ynni ar ôl trin y Tanwydd yn Deillio o Wastraff.

Mae Opsiwn 5 yn seiliedig ar ddatblygu cyfleuster Rhanbarthol i drin gwastraff gweddilliol. Os adeiledir cyfleuster o'r fath yn y dyfodol, efallai y bydd y Cyngor yn ystyried ailarfarnu'r opsiwn dewisol ar gyfer rheoli gwastraff trefol, a gellid ystyried yr opsiwn o anfon gwastraff gweddilliol o ogledd y Sir i'r cyfleuster Rhanbarthol.



## RHEOLI GWASTRAFF TREFOL SOLET I'R DYFODOL – YR OPSIWN DEWISOL AR GYFER GWYNEDD

Mae'r strategaeth ddewisol yn seiliedig ar Opsiwn 1 a bydd yn cynnwys yr elfennau unigol canlynol:

Ehangu cynlluniau ailgylchu ac ailddefnyddio ar gyfer gwastraff trefol er mwyn cwrdd â thargedau'r strategaeth gwastraff ar gyfer pob un o'r blynyddoedd targed, sef 2003/04, 2006/07 a 2009/10. Caiff pob gwastraff gweddilliol, yn absenoldeb cyfleuster Rhanbarthol addas, ei drin mewn un neu ddau o gyfleusterau trin gwastraff gweddilliol o fewn y sir.

Bydd y strategaeth hon yn cynnwys nifer o elfennau allweddol, fel a ganlyn:

- Rhaglen barhaus a gweladwy o addysg a chodi ymwybyddiaeth ynghylch gwastraff i sicrhau bob pawb sy'n byw a gweithio yng Ngwynedd yn ymwybodol o'r angen i ailgylchu a chompostio mwy o wastraff.
- Rhaglen o fentrau i leihau gwastraff gan gynnwys dal i hyrwyddo compostio cartref, cynllunio ar gyfer ailddefnyddio dodrefn a nwyddau trydanol, cefnogi ymgyrchoedd i ddefnyddio clytiau golchadwy a mentrau eraill sy'n helpu i leihau swm y gwastraff trefol a gynhrychir.
- Ehangu nifer y cyfleusterau ailgylchu, i sicrhau bod gan bawb o'r trigolion ffordd eithaf cyfleus i ailgylchu eu gwastraff.
- Dal i roi casglu wrth ochr y lôn ar waith ar gyfer defnyddiau ailgylchadwy sych a rhai organig (y gellir eu compostio). Bydd angen ehangu'r gwasanaethau dros y cyfnod hyd at 2009/10 er mwyn cyrraedd y lefel o ailgyfeirio sydd ei angen i gwrdd â'r targedau.
- Ehangu'r Ganolfan Gwastraff Domestig ac Ailgylchu, a elwir weithiau yn Saffleoedd Cyfleusterau Dinesig, darparu'r rhain ledled y Sir i hyrwyddo gwell mynediad gan y prif ganolfannau poblogaeth a mwy o ailgyfeirio defnyddiau i'w hailgylchu a'u hailddefnyddio.
- Dal i ddatblygu cyfleusterau trafod a thrin gwastraff i gynnwys y rhai canlynol:  
 Darparu Cyfleuster Ailgylchu Defnyddiau i drin defnyddiau ailgylchadwy a gesglir wrth ochr y lôn ac mewn Canolfannau Gwastraff Domestig ac Ailgylchu.  
 Datblygu cyfleuster compostio mewn llestr ar gyfer trin defnyddiau organig wedi'u gwahanu (gan gynnwys gwastraff gwyrdd a gwastraff organig cegin). Mae'n debyg y bydd angen i hwn fod yn ei le i gwrdd â'r targedau compostio ar gyfer 2006/07 a 2009/10, sef 10% a 15%.
- Dal i ddefnyddio compostio rhencio agored ar raddfa fechan mewn ffermydd ar gyfer gwastraff gwyrdd. Bydd angen technegau rhencio agored hefyd er mwyn aeddfedu ymhellach y cynnyrch a geir o'r cyfleuster compostio mewn llestr.
- Sicrhau digon o gynhwysedd i drin gwastraff o fewn cyfleuster trin gwastraff gweddillion, sef compostio mewn llestr, mae'n debyg.

**Disgwylir y bydd angen y nifer canlynol o gyfleusterau i roi'r strategaeth ddewisol ar waith:**

- **90 + o gyfleusterau (banciau) ailgylchu**
- **2 Gyfleuster Ailgylchu Defnyddiau**
- **7 Canolfan Ailgylchu Gwastraff Domestig (safle Cyfleuster Dinesig), yn ogystal â chyfleusterau 'lloeren'**
- **3 chyfleuster Compostio Rhencio agored**
- **2 gyfleuster compostio mewn llestr**
- **2 gyfleuster trin gwastraff gweddilliol**

**Darperir nifer o'r cyfleusterau hyn eisoes, ond bydd angen cyfleusterau ychwanegol er mwyn cyrraedd y lefelau o ailgylchu, compostio ac ailgyfeirio gwastraff oddi wrth dirlenwi sydd eu hangen.**

**Dylid nodi y bydd angen gwaredu rhai mathau o wastraff trwy dirlenwi trwy gydol y strategaeth. Bydd swm y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yn lleihau yn sylweddol hyd at 2010 a thu hwnt. Felly bydd angen sicrhau safleoedd tirlenwi i'r dyfodol.**

**Bydd angen ystyried hefyd y fframwaith contractol ar gyfer rhoi'r strategaeth ar waith, a rhoddir ystyriaeth bellach i hyn yn y brif ddogfen.**

**Rhoddir isod wybodaeth bellach am rai o'r elfennau allweddol.**

#### Addysg a Chodi Ymwybyddiaeth

Bydd angen parhaus i godi ymwybyddiaeth, i atgoffa'r cyhoedd o hyd am ailgylchu a lleihau gwastraff. Bydd y gwaith a wneir gyda'r ysgolion yn dal i ehangu a lle bo'n briodol bydd yn gysylltiedig â rhaglen 'Ysgolion Gwyrdd' y Cyngor.

#### Lleihau Gwastraff

Y prif weithgareddau fydd hyrwyddo compostio cartref, a chydweithredu â chynlluniau cymunedol sy'n ymwneud ag ailddefnyddio dodrefn a nwyddau trydanol. Mae rhaglen gefnogi gymunedol dan ystyriaeth i annog pobl i gompostio gartref, nid yn unig i ddarparu cyngor ar ddulliau compostio, ond hefyd i annog pobl i gompostio gartref yn hytrach na defnyddio'r gwasanaeth casglu gwastraff cegin a gardd a fydd yn cael ei ddarparu gan y Cyngor.

#### Cyfleusterau Ailgylchu

Ar hyn o bryd mae 60 safle ailgylchu yng Ngwynedd, lle gall trigolion ddi-doli a rhoi defnyddiau fel papur, caniau, gwydr, tecstilau, llyfrau ayb. Mae'r lefel hon o ddarpariaeth yn golygu bod 1 safle ailgylchu ar gyfer pob 980 aelwyd, a byddai cynyddu nifer y safleoedd ailgylchu i 90 yn golygu bod 1 safle ailgylchu ar gyfer pob 650 aelwyd – sy'n well na'r argymhellion "ymarfer da" sef 1 safle ailgylchu ar gyfer pob 750 aelwyd. Byddai'r rhan fwyaf o'r cyfleusterau ailgylchu ychwanegol yn cael eu lleoli mewn ardaloedd gwledig pellennig lle na fyddai efallai yn ymarferol darparu gwasanaeth wrth ochr y lôn, gan sicrhau bod gan bawb fynediad at wasanaeth ailgylchu. Rhagwelir y byddai'r cyfleusterau ailgylchu ychwanegol yn gysylltiedig â manau casglu sbwriel cymunedol.

### Cyfleusterau Ailgylchu Defnyddiau

Mae angen didoli rhai defnyddiau, fel plastigion, yn fathau gwahanol wrth eu paratoi ar gyfer eu hailgylchu, tra mae angen bwndelu rhai defnyddiau, gan gynnwys cardbord a phlastig, er mwyn lleihau eu maint. Byddai cyfleuster ailgylchu defnyddiau ‘glân’, sy’n trin defnyddiau a wahanir wrth y ffynhonnell, yn fodd i ddatblygu systemau ar gyfer casglu, didoli a bwndelu defnyddiau fel plastigion a chardbord, nad ydynt yn cael eu hailgylchu ar hyn o bryd, a byddai’n helpu i leihau costau cludo’r defnyddiau i’r ailbrosesyddion. Rhagwelir y datblygir un cyfleuster ailgylchu yng ngogledd Gwynedd i drin nwyddau i’w hailgylchu o Arfon a rhan o Ddwyfor, tra byddai cyfleuster arall yn cael ei ddarparu i drin nwyddau i’w hailgylchu o Feirionnydd a gweddill ardal Dwyfor.

### Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig

Cyfleusterau yw canolfannau ailgylchu gwastraff domestig lle mae trigolion yn gallu mynd â hen ddodrefn, gwastraff gardd ayb. Mae profiad yn dangos y gellir cyrraedd lefel uchel o ailgylchu (dros 50%) mewn canolfannau o’r fath. Mae 3 canolfan ailgylchu gwastraff domestig ar gael ar hyn o bryd yng Ngwynedd, sy’n is na’r lefel arferol o ddarpariaeth. Mae gwaith wedi’i wneud ar ddatblygu cynllun drafft i gynyddu nifer y canolfannau ailgylchu gwastraff domestig a’r lloerenni cysylltiedig i osgoi gorfodi unrhyw un sy’n byw yng Ngwynedd i deithio pellter afresymol i ddefnyddio un o’r canolfannau. Pan ailgylchir rhan helaeth o’r gwastraff y disgwylir iddo gael ei dderbyn yn y canolfannau ailgylchu gwastraff domestig ar ôl cynyddu nifer y rheini, bydd hyn yn gyfraniad pwysig at gwrdd â’r targedau ailgylchu.

### Cyfleusterau Compostio Mewn Llestr

Er mwyn cwrdd â’r targedau compostio yn strategaeth gwastraff Llywodraeth Cynulliad Cymru, a’r gofynion yn y Gyfarwyddeb Tirlenwi i leihau swm y gwastraff pydradwy a anfonir i safleoedd tirlenwi bydd angen compostio gwastraff cegin a gardd. Ar ôl y clwyf traed a genau diwethaf, lleisiwyd pryderon ynghylch gallu systemau compostio rhencio agored i ladd pathogenau ayb. Oherwydd hyn, caiff gwastraff cegin a gardd ei gompostio mewn systemau llestri a reolir yn ofalus. I osgoi cludo’r porthiant a’r cynnyrch compost terfynol dros bellterau mawr, rhagwelir y defnyddir 2 gyfleuster compostio mewn llestr – y naill i wasanaethau hanner gogleddol Gwynedd, a’r llall i wasanaethu’r hanner deheuol.

### Cyfleusterau Trin Gweddillion

Mae’r strategaeth ddrafft yn rhagweld y bydd y cyfleusterau a ddarperir yn fodd i gwrdd â thargedau ailgylchu a chompostio Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, mae’r Gyfarwyddeb Tirlenwi yn gosod gofynion beichus i leihau’n sylweddol swm y gwastraff trefol pydradwy a anfonir i safleoedd tirlenwi. Bydd 40% o’r gwastraff trefol a gynhyrchir yn cael ei ailgyfeirio er mwyn cwrdd â’r targedau ailgylchu a chompostio, ond mae angen trin cynnwys pydradwy y 60% o’r gwastraff sy’n weddill er mwyn cyflawni’r lleihad angenrheidiol yn swm y gwastraff trefol pydradwy a anfonir i safleoedd tirlenwi. Byddai methu â chydymffurfio â’r gofyniad hwn yn denu cosb ariannol sylweddol – a bennwyd yn ddiweddar ar £200 am bob tunnell fetrig. Rhagwelir y bydd gan y ddau faluriwr gwastraff ym mherchnogaeth y Cyngor rôl i’w chwarae wrth drin y gwastraff gweddillion. Bydd y malurwyr hyn yn torri’r gwastraff i lawr yn fecanyddol a’i wahanu yn 2 ffrwd – sef ffrwd fras a ffrwd fân. Mae’r ffrwd gwastraff mân yn wastraff pydradwy yn bennaf a bwriedir trin y ffrwd gwastraff man gweddilliol trwy ei gompostio i gynhyrchu gwrtaith i wella pridd. Bydd tynnu gwastraff pydradwy fel hyn allan yn golygu y gellir cwrdd â’r targedau ar gyfer ailgyfeirio gwastraff trefol pydradwy hyd at 2020.

## GOFYNION A CHYNWYSEDDAU'R CYFLEUSTERAU

Ceir braslun o'r gofynion a chynwyseddau'r cyfleusterau mewn tunelli metrig yn unol â'r hyn a ragwelir ar gyfer Opsiwn 1, y strategaeth ddewisol ac Opsiwn 5, sef yr opsiwn amgen yn Nhabl 1 a Thabl 2 isod:

	Canolfannau			Compostio	
	Ailgylchu Gwastraff Domestig	Cyfleusterau Ailgylchu Defnyddiau	Compostio (Mewn llestr a Rhencio agored)	Gwastraff Gweddilliol Mewn Llestr	Tirlenwi
2006	18,512	9,293	8,898	-	66,277
2009	20,497	15,026	14,641	-	58,122
2010	21,064	17,626	15,852	31,290	28,237
2013	22,401	18,744	16,858	32,939	29,726
2020	23,184	19,400	17,448	33,626	30,346

**Tabl 1 – Cynhwysedd Trin Gwastraff (tunelli metrig y flwyddyn) a ragwelir ar gyfer Opsiwn 1 (Opsiwn Dewisol ar gyfer Rheoli Gwastraff)**

	Canolfannau			Compostio	
	Ailgylchu Gwastraff Domestig	Cyfleusterau Ailgylchu Defnyddiau	Compostio (Mewn llestr a Rhencio agored)	TFF Gweddilliol	Tirlenwi
2006	18,512	9,293	8,898	-	66,277
2009	20,497	15,026	14,641	-	58,122
2010	21,064	17,626	15,852	59,527	-
2013	22,401	18,744	16,858	62,665	-
2020	23,184	19,400	17,448	63,972	-

**Tabl 2 – Cynhwysedd Trin Gwastraff (tunelli metrig y flwyddyn) a ragwelir ar gyfer Opsiwn 5 (Opsiwn Triniaeth Fecanyddol Fiolegol Ranbarthol)**

Yng Ngwynedd, daearyddiaeth yr ardal yn hytrach na'r cynhwysedd triniaeth angenrheidiol fydd yn pennu nifer y cyfleusterau sydd eu hangen.

Rhoddir isod yn Nhabl 3 amcangyfrif o nifer tebygol y cyfleusterau ar gyfer Opsiynau 1 a 5.

	Nifer tebygol y cyfleusterau				
	Cyfleusterau Adfer Defnyddiau	Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig	Compostio Rhencio Agored	Compostio Mewn Llestr	Trin Gweddillion
Opsiwn 1	2	7	3	2	2 yn y sir
Opsiwn 5	2	7	3	2	1 yn y sir

Comment [SGL1]: Insert foot note to mention regional facility

**Tabl 3 – Nifer tebygol y cyfleusterau gwastraff ar gyfer Opsiynau 1 a 5**

Strategaeth Rheoli Gwastraff Trefol Ddrafft ar gyfer Gwynedd

## **FFACTORAU ERAILL**

### **Lleihau Gwastraff**

Lleihau Gwastraff sydd uchaf yn yr hierarchaeth gwastraff. Mae'r Cyngor yn frwd o blaid lleihau gwastraff ac mae'n awyddus i hyrwyddo mentrau addas i leihau gwastraff. Mae addysg a hyrwyddo ymwybyddiaeth am faterion rheoli gwastraff yn arbennig o bwysig os yw cynhyrchwyr gwastraff, gan gynnwys y cyhoedd, am fabwysiadu arferion trin gwastraff mwy cynaliadwy.

Cyflwynir Cynllun arfaethedig i Leihau Gwastraff, sy'n cynnwys addysg a chodi ymwybyddiaeth, yn nogfen yr Atodiad Technegol (Atodiad 9).

### **Cyfranogiad y Gymuned**

Gall y sector gwirfoddol a chymunedol chwarae rôl sylweddol o ran ailgylchu a lleihau gwastraff, a gallant gynnig amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad nad yw bob amser ar gael yn y sector preifat. Mae gwybodaeth am sut mae'r Cyngor yn bwriadu cynnwys y sector cymunedol wrth reoli gwastraff trefol yn nogfen yr Atodiad Technegol (Atodiad 16).

### **Cynllun Sbwriel**

Mae Cyngor Gwynedd wedi paratoi Cynllun Sbwriel fel rhan o'r strategaeth hon ac fe'i cyflwynir yn nogfen yr Atodiad Technegol (Atodiad 17). Mae'r Cynllun drafft yn cynnwys manylion am bolisiau, strategaethau a gwasanaethau glanhau a ddarperir gan y Cyngor Sir ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r broblem sbwriel ar draws y Sir. Mae'r Cynllun Sbwriel drafft yn cynnwys cynigion i dderbyn sylw yn y dyfodol ac fe'i hymgorfforwyd mewn gwaith ar ddatblygu'r cynllun 'Gwynedd Daclus' sy'n ffurfio rhan o gynllun darparu gwasanaethau presennol y Cyngor.

### **Gwastraff o Bwysigrwydd Arbennig**

Mae gwastraff trefol yn cynnwys nifer o fathau o wastraff o bwysigrwydd arbennig y ceir deddfwriaeth benodol ar eu cyfer. Ceir Cyfarwyddbau neu Reoliadau presennol neu arfaethedig gan yr Undeb Ewropeaidd ar amryw fathau o wastraff, gan gynnwys cerbydau modur, oergelloedd a rhewgelloedd domestig, offer trydanol, batrïau, teiars, asbestos a chemegau domestig.

Mae Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru yn hyrwyddo mesurau ar gyfer casglu gwastraff domestig peryglus ar wahân, i wella rheolaeth dros adnoddau a lleihau peryglon gwastraff trefol gweddilliol. I sicrhau bod gwastraff o bwysigrwydd arbennig yng Ngwynedd yn cael ei drin mewn modd cynaliadwy, mae'r Cyngor wedi cynhyrchu Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli Gwastraff o Bwysigrwydd Arbennig. Mae manylion pellach i'w gweld yn nogfen yr Atodiad Technegol (Atodiad 13).

### **Newidiadau i'r Dyfodol**

Mae rheoli gwastraff wedi dod yn faes sy'n newid yn gyflym trwy'r amser. O wybod pa mor gyflym y mae'n datblygu a newid ar hyn o bryd, mae'n eithaf posibl y cyflwynir gofynion rheoliadol newydd yn y blynyddoedd i ddod na ellir eu rhagweld. Oherwydd hynny, bydd angen adolygu a diweddarau'r strategaeth yn rheolaidd.

At hynny, gellir disgwyl y bydd angen adolygu'r trefniadau ar gyfer casglu, trafod a thrin gwastraff, er mwyn cydymffurfio â gofynion a thargedau sy'n gynyddol feichus a darparu gwasanaeth rheoli gwastraff trefol cost-effeithiol a chyfannol.

## Ymgynghori

Mae ymgynghori â'r cyhoedd yn elfen bwysig o'r broses gwneud penderfyniadau pan wneir dewisiadau gan gyrff cyhoeddus mewn perthynas â'r agweddau ar reoli gwastraff y mae ganddynt rywfaint o reolaeth drostynt. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i reoli gwastraff trefol.

Mae'r Cyngor yn bwriadu ymgynghori ar y Strategaeth Gwastraff ym mis Medi 2004, gan ddatblygu dogfen derfynol erbyn mis Rhagfyr 2004.

## COSTAU

Mae'n anodd asesu'n fanwl y costau sy'n codi wrth roi trefniadau yn eu lle i gwrdd â'r targedau a ddangosir yn y strategaeth ddrafft hon. Bydd ailgyfeirio gwastraff oddi wrth dirlenwi trwy ailgylchu, compostio ayb yn cynyddu'r costau presennol ond disgwylir y bydd mesurau cyllidol a mesurau eraill yn yr hirdymor yn golygu y gwelir tirlenwi fel opsiwn drud mewn termau economaidd ac amgylcheddol.

Mae'r farchnad ailgylchu a chompostio yn ehangu'n gyflym ac ar hyn o bryd mae prisiau offer ailgylchu a chompostio yn eithaf newidiol. Dim ond yn agos i'r amser y'u prynir y bydd costau manwl yr offer yn hysbys, ond er mwyn datblygu costau cymharol rhwng yr amrywiol opsiynau generig a ystyriwyd wrth ddatblygu'r strategaeth, roedd yn rhaid defnyddio costau cyfalaf dangosol. Rhoddir isod enghreifftiau o'r costau dangosol hyn: -

- cyfleusterau banciau ailgylchu ychwanegol (yr un) £1,000
- canolfan ailgylchu gwastraff domestig (yr un) £200,000
- cyfleuster compostio mewn llestr, gwastraff cegin a gardd (yr un) £600,000
- Cyfleuster Ailgylchu Defnyddiau (yr un) £1,000,000
- Cyfleuster i drin gwastraff gweddilliol £4,000,000

Gan ddefnyddio costau datblygu a gweithredu dangosol, ynghyd â nifer y tunelli o wastraff y rhagwelir y bydd angen eu trin rhwng nawr a 2020, cafwyd y costau cymharol a ganlyn ar gyfer yr opsiynau dan sylw: -

Opsiwn	0	1	2	3	4	5	6
Cost fesul tunnell fetrig (£/t)	£114.87	£98.04	£101.28	£101.37	£103.45	£108.30	£103.25

Pwysleisir mai costau dangosol yn unig yw'r ffigurau hyn; bydd y costau gwirioneddol o adeiladu'r cyfleusterau gwastraff angenrheidiol yn dibynnu ar lawer o ffactorau na ellir eu hasesu yn fanwl ar hyd o bryd.

Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod gan Opsiwn 1, sef y strategaeth ddewisol, y gost isaf fesul tunnell fetrig. Dylid nodi hefyd mai Opsiwn 0, sef 'gwneud dim' neu adael pethau fel y maent, yw'r opsiwn drutaf.

Mae'n amlwg y bydd angen swm sylweddol o arian i ddatblygu'r cyfleusterau i drin gwastraff trefol yng Ngwynedd a gallai hyn rhoi pwysau sylweddol ar adnoddau ariannol y Cyngor. Oherwydd hyn, bydd angen gweithio tuag at gael cymhorthdal tuag at y costau.

## CYNLLUN GWEITHREDU

Nodwyd targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2006/07 a 2009/10 yn gynt yn y ddogfen hon. I gwrdd â'r targedau hynny, bydd angen cyflawni gwaith ar y cynllun gweithredu canlynol: -

1. Gosod cyfleusterau ailgylchu ychwanegol – o 2005 i 2008
2. Ehangu'r cynllun ochr y lôn i gasglu defnyddiau ailgylchadwy sych – 2005 a 2006
3. Ehangu'r cynllun ochr y lôn i gasglu gwastraff gwyrdd – 2005 a 2006
4. Sefydlu rhwydwaith o ganolfannau ailgylchu gwastraff domestig – o 2005 i 2008
5. Cyfleuster Ailgylchu Defnyddiau cyntaf i ddechrau gweithredu – yn fuan yn 2006
6. Cyfleusterau compostio mewn llestr i ddechrau gweithredu – y naill yn 2007 a'r llall yn 2008
7. Ehangu casglu gwastraff gwyrdd wrth ochr y lôn i gynnwys gwastraff cegin – 2007 a 2008
8. Ail Gyfleuster Ailgylchu Defnyddiau i ddechrau gweithredu – 2007
9. Cyfleuster ar gyfer trin gwastraff gweddillion i ddechrau gweithredu – 2010
10. Ehangu cynlluniau ailgylchu gwastraff masnachol – parhaus

Fodd bynnag, mae pryder ar hyn o bryd ynghylch faint o gynhwysedd tirlenwi fydd ar gael yng ngogledd Gwynedd yn y tymor byr i'r tymor canol. Oherwydd hyn, efallai y bydd angen rhoi blaenoriaeth i leihau swm y gwastraff a anfonir i dirlenwi yn y tymor byr yn hytrach na chwrrd â'r targedau ailgylchu a chompostio ar gyfer 2006/07. Gallai rhoi blaenoriaeth i leihau swm y gwastraff a anfonir i dirlenwi yng ngogledd Gwynedd olygu cynllun gweithredu fel a ganlyn: -

1. Gosod cyfleusterau ailgylchu ychwanegol – o 2005 i 2008
2. Ehangu'r cynllun ochr y lôn i gasglu defnyddiau ailgylchadwy sych – 2005 a 2006
3. Ehangu'r cynllun ochr y lôn i gasglu gwastraff gwyrdd – 2005 a 2006
4. Sefydlu rhwydwaith o ganolfannau ailgylchu gwastraff domestig – o 2005 i 2009
5. Cyfleuster Ailgylchu Defnyddiau cyntaf i ddechrau gweithredu – yn fuan yn 2006
6. Cyfleuster ar gyfer trin gwastraff gweddillion i ddechrau gweithredu – 2007
7. Cyfleuster gogleddol compostio mewn llestr i ddechrau gweithredu – 2007
8. Cyfleuster deheuol compostio mewn llestr i ddechrau gweithredu – 2008
9. Ehangu casglu gwastraff gwyrdd wrth ochr y lôn i gynnwys gwastraff cegin – 2007 a 2008
10. Ail Gyfleuster Ailgylchu Defnyddiau i ddechrau gweithredu – 2009
11. Ehangu cynlluniau ailgylchu gwastraff masnachol – parhaus

## CASGLIAD

Mae'r adolygiad o'r strategaeth gwastraff wedi dangos y gellir cwrdd â'r targedau ailgylchu a chompostio a thargedau'r Gyfarwydddeb Tirlenwi ar gyfer Gwynedd trwy wella ac ychwanegu at yr isadeiladwaith casglu a thrin gwastraff, gan gynnwys:

- Ehangu cynlluniau casglu ochr y lôn i ardaloedd eraill, gan gynnwys tua 90% o'r cartrefi
- Cynyddu swm y defnyddiau ailgylchadwy sych a gesglir wrth ochr y lôn i gynnwys plastigion a chardbord

- Cyflwyno casgliadau o wastraff gwyrdd i 80% o'r cartrefi, gan eu hehangu i gynnwys gwastraff cegin rywbryd yn y dyfodol.
- Rhyw 30 o fanciau ailgylchu ychwanegol, gyda'r rhan fwyaf yn cael eu lleoli mewn ardaloedd mwy gwledig
- Cynyddu nifer y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig i 7 a gwneud gwelliannau er mwyn hyrwyddo mwy o wahanu gwastraff i'w ailgylchu a'i gompostio
- Sefydlu 2 Gyfleuster Ailgylchu Defnyddiau i ddiolli a bwndelu defnyddiau wedi'u hailgylchu
- Sefydlu o leiaf un cyfleuster gwastraff i drin gwastraff gweddilliol

Credir bod y nifer o gyfleusterau a ddangosir uchod yn realistig ond efallai y bydd angen eu hadolygu wrth i ni fagu profiad o effeithiau daearyddol a ffactorau gweithrediadol.

Bydd y costau yn fater o bwys ac mae'n annhebygol y gellir rhoi'r strategaeth ddrafft ar waith heb gymorth parhaus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a bod cymhorthdal ar gael i helpu i ddatblygu cyfleusterau.

Fodd bynnag, mae'r strategaeth gwastraff yn dangos sut y gellir cwrdd â'r targedau ar gyfer ailgylchu, compostio, ac ailgyfeirio gwastraff trefol pydradwy, a gweithio ar yr un pryd yn unol ag egwyddorion yr hierarchaeth gwastraff a hefyd egwyddor agosrwydd. Mae rhywfaint o hyblygrwydd yn dal i berthyn i'r strategaeth hon, sydd yn rhoi gerbron opsiwn cystadleuol o ran cost ar gyfer rheoli gwastraff trefol yng Ngwynedd.